# Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Board of Trustees

## Trustee Job Description

### What difference will you make?

Your involvement will help us in achieving our Vision and our Mission by helping us broaden awareness of our values and priorities and increasing our visibility across a wider audience. Your experience of Out of School Childcare will strengthen and compliment the skills of the current Board.

### Benefits of being a Trustee

You will be joining an active Board and your expertise will significantly help the organisation to reach their goals. You will play a pivotal role in shaping the strategic direction and future development of this successful charity who aim to make a real difference to the Out of School Childcare Sector.

### General and Statutory Trustee duties

- Assist in ensuring that the organisation pursues its objectives as defined in its governing document, charity law, company law and any other relevant legislation or regulations.
- Contribute actively to the Board of Trustees' role in giving firm strategic direction to the organisation, setting overall policy, defining goals, setting targets and evaluating performance against agreed targets.
- Ensure the organisation uses its resources exclusively in pursuance of its objects; the charity must not spend money on activities, which are not included in its own objectives, no matter how worthwhile, or charitable those activities are.
- Ensure the financial stability of the organisation.
- Safeguard the good name and values of the organisation.
- Represent the organisation (and Out of School Childcare Sector) at functions and meetings as appropriate.
- Declare any conflict of interest whilst carrying out the duties of a trustee.
- Take collectively responsible for the actions of the organisation and other trustees.
- Abide by all relevant policies and procedures
- Protect and manage the property of the organisation and to ensure the proper investment of the organisation's funds.
- Appoint a Chief Executive Officer and monitor their performance.

Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs takes professional and legal advice as necessary. Members of staff or professional bodies may carry some of the duties listed above out, and therefore Trustees need only to satisfy themselves that they are being carried out.

### Other Duties

- In addition to the statutory duties, each Trustee should use any specific skills, knowledge or experience they have to help the
- Board of Trustees reach sound decisions. This may involve:
- Scrutinising Board papers
- Leading discussions
- Focusing on key issues
- Providing guidance on new initiatives
- Other issues in which the Trustee has special expertise Trustee

### Person Specification

Trustees of Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs should:

- Have a commitment to the aim of the organisation.
- Show a willingness to devote the necessary time and effort
- Have a strategic vision
- Show good, independent judgement
- Have the ability to think creatively
- Have a willingness to speak their mind
- Have an understanding and acceptance of the legal duties, responsibility and liabilities of trusteeship
- Have the ability to work effectively as a member of a team
- Show Nolan's seven principles of public life: selflessness, integrity, objectivity, accountability, openness, honesty and leadership
- Undertake a satisfactory Standard Level DBS Check

### People who are disqualified from being Trustees of Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs include:

- Those who are undischarged bankrupts
- Disqualified Company Directors
- Those who have unspent convictions relating to dishonesty
- Those who have failed to make payments under county court administration orders
- Those who have been removed by the Charity Commission for mismanagement.
- Those who have been Trustees for 6 consecutive years
- Those under 18 years of age
- Those who have unsatisfactory Disclosure and Barring Service Checks.

To apply for a role on the Board of Trustees please forward a nomination from your club on the form here:
https://forms.gle/3oQfBKeohmhb7Fdn6

Registered Office: Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs, Bridge House, Station Road, Llanishen, Cardiff. CF14 5UW T: 029 2074 1000 / F: 029 2074 1047 Company limited by guarantee 4296436. Registered charity 1093260.

E: info@clybiauplantcymru.org / W: www.clybiauplantcymru.org

# Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs Board of Trustees

## Pa wahaniaeth fyddwch chi'n ei wneud?

Bydd eich cyfranogiad yn ein helpu i gyflawni ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth drwy ein helpu i ehangu ymwybyddiaeth o'n gwerthoedd a'n blaenoriaethau, a'n hamlygu ar draws cynulleidfa ehangach. Bydd eich profiad o Ofal Plant Allysgol yn cryfhau ac yn ategu sgiliau'r Bwrdd presennol.

## Manteision bod yn Ymddiriedolwr

Byddwch yn ymuno â Bwrdd gweithgar, a bydd eich arbenigedd yn helpu'r sefydliad yn sylweddol i gyrraedd ei nodau. Byddwch yn chwarae rôl ganolog yn siapio cyfeiriad strategol a datblygiad yr elusen lwyddiannus hon, sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth go iawn i'r Sector Gofal Plant Allysgol.

## Dyletswyddau Cyffredinol a Statudol Ymddiriedolwyr

- Cynorthwyo i sicrhau bod y sefydliad yn dilyn ei amcanion fel y'u diffinnir yn ei ddogfen lywodraethu, cyfraith elusennau, cyfraith cwmnïau, ac unrhyw ddeddfwriaeth neu reoliadau perthnasol eraill.
- Cyfrannu'n weithgar at rôl Bwrdd yr Ymddiriedolwyr o ran rhoi cyfeiriad strategol cadarn i'r sefydliad, gosod polisi cyffredinol, diffinio nodau, gosod targedau, a gwerthuso perfformiad yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod y sefydliad yn defnyddio ei adnoddau yn unswydd er mwyn cyflawni ei amcanion; ni ddylai'r elusen wario arian ar weithgareddau sydd heb eu cynnwys yn ei hamcanion, waeth pa mor werthfawr neu elusennol yw'r gweithgareddau hynny.
- Sicrhau sefydlogrwydd ariannol y sefydliad.
- Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.
- Cynrychioli'r sefydliad (a'r Sector Gofal Plant Allysgol) mewn digwyddiadau a chyfarfodydd fel sy'n briodol.
- Datgan unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gyflawni dyletswyddau ymddiriedolwyr.
- Cymryd cyfrifoldeb ar y cyd am weithredoedd y sefydliad ac ymddiriedolwyr eraill.
- Glynu at yr holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol.
- Diogelu a rheoli eiddo'r sefydliad a sicrhau bod cronfeydd y sefydliad yn cael eu buddsoddi'n briodol.
- Penodi Prif Swyddog Gweithredol a monitro eu perfformiad.

Mae Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cael cyngor proffesiynol a chyfreithiol yn ôl yr angen. Gallai aelodau staff neu gyrff proffesiynol gyflawni rhai o'r dyletswyddau a nodwyd uchod, ac felly does dim ond angen i'r Ymddiriedolwyr deimlo'n fodlon eu bod yn cael eu cyflawni.

## Dyletswyddau Eraill

- Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol, dylai pob Ymddiriedolwr ddefnyddio unrhyw sgiliau, gwybodaeth neu brofiad penodol sydd ganddyn nhw i helpu Bwrdd yr Ymddiriedolwr i ddod i benderfyniadau cadarn. Gallai hyn gynnwys:
- Craffu ar bapurau'r Bwrdd
- Arwain trafodaethau
- Canolbwyntio ar faterion allweddol
- Darparu arweiniad ar fentrau newydd
- Materion eraill y mae'r Ymddiriedolwr yn arbenigo ynddynt

## Manyleb yr Unigolyn

### Dylai Ymddiriedolwyr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs allu gwneud y canlynol:

- Ymrwymo i nod y sefydliad.
- Dangos parodrwydd i neilltuo'r amser a'r ymdrech angenrheidiol
- Bod â gweledigaeth strategol
- Dangos crebwyll ac annibyniaeth
- Meddwl yn greadigol
- Bod yn barod i ddweud eu dweud
- Deall a derbyn dyletswyddau cyfreithiol, cyfrifoldebau ac atebolrwydd bod yn ymddiriedolwr
- Gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm
- Dangos saith egwyddor bywyd cyhoeddus Nolan: anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, didwylledd, gonestrwydd ac arweinyddiaeth
- Cynnal gwiriad boddhaol lefel safonol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

## Mae pobl sydd wedi'u gwahardd rhag bod yn Ymddiriedolwyr Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs yn cynnwys:

- Methdalwyr heb eu rhyddhau
- Pobl sydd wedi'u anghymwyso fel cyfarwyddwr cwmni
- Pobl sydd â chollfarnau heb ddarfod mewn perthynas ag
- anonestrwydd
- Pobl sydd wedi methu â gwneud taliadau o dan orchmynion gweinyddu llys sirol
- Pobl sydd wedi'u tynnu gan y Comisiwn Elusennau am gamreoli
- Pobl sydd wedi bod yn Ymddiriedolwyr am chwe blynedd yn olynol
- Pobl o dan 18 oed
- Pobl sydd â gwiriad anfoddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Er mwyn gwneud cais am rôl ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, anfonwch enwebiad o'ch clwb drwy'r ffurflen yma: https://forms.gle/3oQfBKeohmhb7Fdn6